

Polisi System Apwyntiadau

Dyma'r polisi apwyntiadau ar gyfer Deintyddfa Channings. Mae'r polisi hwn yn ymdrin â sut mae apwyntiadau deintyddol yn cael eu rheoli yn y practis. Mae'n rhoi manylion ar beth y gall cleifion ei ddisgwyl gennym o ran eu hapwyntiadau, a hefyd beth yr ydym yn ei ddisgwyl yn gyfnewid.

Yma yn Neintyddfa Channings rydym yn gweithredu system apwyntiadau i weld ein clinigwyr. Dydyn ni ddim yn gweithredu clinig 'galw i mewn' ar unrhyw adeg.

Trefnu apwyntiad

1. Rhaid archebu pob apwyntiad gyda'n clinigwyr, boed gyda'r deintydd, therapydd deintyddol, helenydd neu dechnegydd clinigol.
2. Gellir gwneud hyn drwy:
 - a. Ffonio'r dderbynfa ar 01656 783403
 - b. Trefnu yn y dderbynfa yn bersonol
 - c. E-bostio'r Practis (thechannings@tiscali.co.uk)
 - ch. Negeseuon uniongyrchol trwy un o'n llwyfannau cyfryngau cymdeithasol (Facebook neu X/Twitter)
3. Mae'n arferol i'n tîm derbyn ofyn y rheswm dros yr apwyntiad. Mae hyn yn sicrhau bod y claf yn cael ei brysennu'n iawn fel bod yr apwyntiad cywir yn cael ei drefnu gyda'r clinigwr priodol gyda'r amser cywir wedi'i ddyrannu.
4. Mae'r apwyntiad, oni nodir yn wahanol, ar gyfer un claf yn unig. Efallai na fydd y claf yn cymryd yn ganiataol, drwy drefnu apwyntiad y gellir gweld aelodau eraill o'u haelwyd, er enghraifft, yn yr apwyntiad hwnnw heb hysbysu'r practis ymlaen llaw.
5. Er y gwneir pob ymdrech i geisio dod o hyd i apwyntiad cyfleus i bawb, nid yw hyn bob amser yn bosibl. Mae gennym nifer cyfyngedig o apwyntiadau brys ar gael bob dydd.
6. Os yw'r claf yn dymuno cael ei weld ar yr un diwrnod (oherwydd bod problem na all aros), dylai gysylltu â'r practis cyn gynted â phosibl a bod yn barod i fod yn hyblyg gyda'r amseroedd apwyntiadau. Gwneir pob ymdrech i'w gweld ar yr un diwrnod ond ni allwn warantu hyn.
7. Dydyn ni ddim yn trefnu apwyntiadau ymlaen llaw fel mater o drefn ac yna'n eu 'hanfon allan' at gleifion. Dylid archebu pob apwyntiad ym mhresenoldeb y claf neu ei warcheidwad/rhiant/gofalwr.

Dod i apwyntiad

1. Cyfrifoldeb y claf yw cyrraedd yn brydlon ar gyfer ei apwyntiad. Os yw'r claf yn hwyr ar gyfer ei apwyntiad, mae'n ôl disgrisiwn y clinigwr p'un a yw'n cael ei weld ai peidio. Er y byddwn yn gwneud pob ymdrech i'w gweld, efallai na fydd yn bosibl gwneud hynny, neu gall olygu oedi sylweddol.
2. Os nad yw'r claf yn gallu mynychu ei apwyntiad, dylai gysylltu â'r practis o leiaf 24 awr ymlaen llaw.
3. Os bydd claf yn methu â mynychu ei apwyntiad bydd yn cael ei farcio felly ar ei gofnodion. Os bydd yn cysylltu â ni ar ôl e apwyntiad i ganslo e apwyntiad, bydd yn cael ei ystyried fel Methu â Mynychu. Os na fydd yn cyrraedd mewn pryd ac nad yw'n gallu cael ei gweld, bydd yn cael ei ystyried fel Methu â Mynychu.
4. Gweler ein polisïau "Methu â Mynychu" am fwy o fanylion am ganslo ar fyr rybudd ac apwyntiadau sydd wedi methu.
5. Cyfrifoldeb y claf yw mynd i'r dderbynfa pan fydd yn cyrraedd. Ni all ddibynnu ar y tîm derbyn i'w 'gweld' yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur.
6. Cyfrifoldeb y claf yw rhoi gwybod i aelod o staff os, ar ôl gwirio i mewn, mae'n rhaid iddo adael y safle am gyfnod byr (i dalu am barcio, er enghraifft). Yna gall ein tîm clinigol weithio o gwmpas hyn.
7. Bydd adegau pan fydd yn rhaid i'n tîm clinigol ddelio â materion meddygol a deintyddol cymhleth ac efallai eu bod yn rhedeg yn hwyr. Gwneir pob ymdrech i redeg ar amser, ond weithiau nid yw hynny'n bosibl. Byddwn yn ymdrechu i roi gwybod i'r cleifion yr effeithir arnyn nhw os yw hyn yn wir.
8. Rydym yn cadw'r hawl i ofyn i gleifion sydd â dillad wedi'u baeddu'n drwm, fel cotiau/esgidiau sydd wedi'u gorchuddio â baw anifeiliaid, dynnu eu dillad cyn mynd i mewn i'n practisau. Gallai gwrthod gwneud hynny olygu na fyddant yn cael eu gweld.
9. Rydyn ni'n atgoffa cleifion i fod yn gwrtais i'n staff ac i aelodau eraill o'r cyhoedd tra byddant ar ein safle. Er ein bod yn gwerthfawrogi y gallai cleifion fod mewn poen deintyddol difrifol, nid yw'n rheswm iddyn nhw ymddwyn yn ymosodol neu'n dreisgar tuag at unrhyw aelod o'n tîm.

Canslo apwyntiad

1. Os nad yw'r claf yn gallu mynychu ei apwyntiad, dylai gysylltu â'r practis o leiaf 24 awr ymlaen llaw.
2. Os bydd claf yn methu â mynychu ei apwyntiad bydd yn cael ei farcio felly ar ei gofnodion. Os bydd yn cysylltu â ni ar ôl e apwyntiad i ganslo e apwyntiad, bydd yn cael ei ystyried fel Methu â Mynychu. Os na fydd yn cyrraedd mewn pryd ac nad yw'n gallu cael ei gweld, bydd yn cael ei ystyried fel Methu â Mynychu.

3. Gweler ein polisïau "Methu â Mynychu" am fwy o fanylion am ganslo ar fyr rybudd ac apwyntiadau sydd wedi methu.
4. Gall cleifion ganslo eu hapwyntiadau drwy:
 - a. Ffonio'r dderbynfa ar 01656 783403
 - b. Trefnu yn y dderbynfa yn bersonol
 - c. E-bostio'r Practis (thechannings@tiscali.co.uk)
 - ch. Negeseuon uniongyrchol trwy un o'n llwyfannau cyfryngau cymdeithasol (Facebook neu X/Twitter)
5. Bydd adegau pan fydd yn rhaid i ni ganslo neu aildrefnu apwyntiad. Gallai hyn fod oherwydd absenoldeb staff, oedi wrth ddychwelyd gwaith labordy, ceisio darparu ar gyfer cleifion brys ychwanegol (fel plentyn mewn poen), neu amgylchiadau annisgwyl. Ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra a achosir ond gwneir pob ymdrech i drefnu apwyntiad cyfleus arall cyn gynted â phosibl.
6. Os bydd angen i ni ganslo apwyntiad, byddwn yn gwneud hynny dros y ffôn. Os na allwn gyrraedd y claf dros y ffôn, byddwn yn gadael neges ar ei beiriant ateb os oes cyfleuster o'r fath ar gael. Byddwn yn ceisio cysylltu â'r claf trwy ei ffôn symudol yn y lle cyntaf, cyn rhoi cynnig arno ar unrhyw rifau cyswllt arall a roddwyd i ni. Ar ôl gadael neges ar beiriant ateb, byddwn ni'n ceisio ffonio eto neu anfon neges SMS i'w ffôn symudol. Gallwn hefyd geisio dilyn i fyny drwy e-bost neu drwy'r post.

Apwyntiadau brys

1. Mae'n arferol i'n tîm derbyn ofyn y rheswm dros yr apwyntiad. Mae hyn yn sicrhau bod y claf yn cael ei brysbennu'n iawn fel bod yr apwyntiad cywir yn cael ei drefnu gyda'r clinigwr priodol gyda'r amser cywir wedi'i ddyrannu.
2. Bydd y cleifion sydd â'r problemau mwyaf brys, neu'r cleifion sydd fwyaf agored i niwed (y rhai sydd ag imiwnedd gwan, er enghraifft) lle gall problem ddeintyddol arwain at ddilyniant systemig peryglus, yn cael blaenoriaeth.
3. Os yw'r claf yn dymuno cael ei weld ar yr un diwrnod (oherwydd bod problem na all aros), dylai gysylltu â'r practis cyn gynted â phosibl a bod yn barod i fod yn hyblyg gyda'r amseroedd apwyntiadau. Gwneir pob ymdrech i'w gweld ar yr un diwrnod ond ni allwn warantu hyn.
4. Dydy'r practis ddim yn gallu gwarantu y bydd triniaeth orau yn cael ei chwblhau yn yr apwyntiad brys; rin cyfarwyddyd yw delio â'r argyfwng yn gyntaf.
5. Os oes angen ymdrin â mwy nag un mater ar gyfer y claf, bydd y practis yn delio â'r mater mwyaf brys yn gyntaf. Ni allwn warantu y gellir ymdrin â phob mater yn ystod yr apwyntiad brys cychwynnol.
6. Mae apwyntiadau brys wedi'u neilltuo ar gyfer cleifion sydd ar ein rhestr o gleifion sy'n cynnwys y canlynol:

- a. Cleifion sydd wedi cofrestru gydag un o'n cynlluniau deintyddol ar hyn o bryd;
 - b. Cleifion sydd wedi'u cofrestru fel claf preifat ar hyn o bryd;
 - c. Cleifion sy'n cael eu hystyried yn "glaf hanesyddol" yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru (rhywun sydd wedi ei weld yn y practis yn y "pedair blynedd ariannol flaenorol").
7. O dan y trefniadau presennol gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol, rydym hefyd yn darparu apwyntiadau ar ddiwrnodau penodol, fel y cytunwyd rhwng y practis a'r bwrdd iechyd, i weld cleifion brys newydd yn cael eu cyfeirio atom gan yr Hwb Deintyddol Brys. Mae'r slot brys wedi'i neilltuo ar gyfer y cleifion hyn yn unig. Ni allwn gynnig y slotiau hyn i unrhyw gleifion eraill nad ydynt yn cael eu cyfeirio atom o'r Hwb Deintyddol Brys.

System Ailalw

1. Bydd cleifion yn cael gwybod gan y tîm clinigol ar eu cyfnod ailalw yn dilyn diwedd eu cwrs triniaeth. Mae hyn yn seiliedig ar eu risg o ddatblygu clefydau deintyddol fel pydredd yn y dannedd, canser y geg, neu glefyd periodontal (clefyd y deintgig).
2. Mae'r cyfnod ailalw fel arfer rhwng 3 mis a 2 flynedd.
3. Er ei bod yn bosibl y bydd y practis weithiau'n gallu trefnu apwyntiad nesaf y claf yn unol â'i gyfnod ailalw, dydy hyn ddim bob amser yn bosibl.
4. Mae'r practis yn ymdrechu i anfon nodiadau atgoffa ailalw mor agos at yr adeg y mae'r claf i fod mor logistaidd bosibl. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y claf yw gwneud nodyn ynghylch pryd y disgwylir iddo gael ei apwyntiad nesaf.
5. Gellir anfon nodiadau atgoffa ailalw trwy e-bost, SMS neu lythyr. Ni allwn sicrhau bod y claf wedi derbyn neu ddarllen y cyfathrebiad.
6. Cyfrifoldeb y claf yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei fanylion cyswllt.
7. Mae'r practis yn cadw'r hawl i beidio ag anfon nodiadau atgoffa ar unrhyw adeg oherwydd rhesymau logistaidd. Gallai hyn fod oherwydd bod y llyfr apwyntiadau eisoes yn brysur iawn ac wedi'i archebu wythnosau i ddod, neu absenoldeb staff, neu amgylchiadau annisgwyl eraill.
8. Ni all y claf ddefnyddio'r esgus o beidio â chael nodyn atgoffa i golli ei gofrestrriad. Cyfrifoldeb y claf yw gwneud nodyn ynghylch pryd y disgwylir iddo gael ei apwyntiad ailalw nesaf.

Cyfeiriadau

1. Rheoli problemau deintyddol aciwt (SDCEP) <https://www.sdcep.org.uk/published-guidance/acute-dental-problems/>
2. Gofal Deintyddol Brys (SDCEP) <https://www.sdcep.org.uk/published-guidance/emergency-dental-care/>

